

Nam Symudedd

Mae nam symudedd yn effeithio ar yr esgyrn, y cymalau neu'r nerfau sy'n rheoli symudiad ac yn berthnasol i unrhyw gyflwr sy'n cyfyngu ar symudedd neu symudiadau person neu sy'n achosi poen wrth symud. Mae hefyd yn cynnwys cyflyrau meddygol sy'n cyfyngu ar symudedd, megis parlys yr ymennydd.

Cynghorion Defnyddiol i Staff Academaidd

Bydd myfyrwyr sydd â nam symudedd yn cymryd mwy o amser i symud o gwmpas y campws, felly ceisiwch osgoi newid ystafelloedd ar y funud olaf ble bynnag y bo modd.

Ystyriwch effeithiau wrth amserlennu lleoliadau; ni ddylai myfyrwyr sydd â nam symudedd fod o dan anfantais am eu bod yn cyrraedd yn hwyr os bydd yr amserlen yn gofyn iddynt symud ar draws y campws rhwng sesiynau

Gall tasgau mewn llawysgrifen ac sydd â ffocws ar ddehurwydd fod yn anodd – efallai y bydd Cymerwr Nodiadau neu Gynorthwydd Cymorth Ymarferol (PSA) gyda'r myfyriwr mewn darlithoedd

Sicrhewch fod yr holl amgylcheddau ffisegol y mae gofyn i'r myfyriwr fynd iddynt yn hawdd eu cyrraedd heb unrhyw beryglon. Dylid hefyd ystyried pethau megis a ellir agor drysau'n hawdd ac a oes digon o le i gadair olwyn.

Caiff myfyrwyr sydd â nam symudedd weithiau fod blinder corfforol yn waeth ar rai adegau o'r diwrnod, felly efallai y bydd angen i chi gynnig 'seibiant'

Efallai y bydd adegau pan na fydd myfyrwyr sydd â namau symudedd yn gallu dod i sesiynau – bydd angen i'r myfyriwr allu manteisio ar y cynnwys a gollwyd

Os bydd y myfyriwr yn defnyddio cadair olwyn neu os bydd ganddo gymorth symudedd, ceisiwch eistedd ar yr un lefel â'r myfyriwr, peidiwch â phwyso ar y gadair olwyn neu'r cymorth gan ei fod yn debygol o fod yn rhan o le personol y myfyriwr

Am ragor o wybodaeth ewch i www.wales.nhs.uk / www.nhs.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch a'ch Cydlynnydd Cymorth Dysgu